OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

## 2007 Rhif 3163 (Cy.274)

# TAI, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Safleoedd Carafanau 1968 (Diwygio) (Cymru) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r diffiniad o "*caravan*" yn adran 13(2) o Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968 ("Deddf 1968")

Mae adran 13 ("*twin-unit caravans*") o Ddeddf 1968 yn eithrio o'r diffiniad o "*caravan*" yn Rhan 1 o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 strwythurau dwy-uned a ddylunwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddynt sy'n cynnwys dim mwy na dwy adran a adeiladwyd ar wahân ac a ddylunwyd i gael eu rhoi at ei gilydd ar y safle gyda bolltau, clampiau neu ddyfeisiadau tebyg, ac y mae modd, pan fyddant wedi cael eu rhoi wrth ei gilydd, eu symud yn ffisegol ar hyd y ffordd o un man i fan arall ac sydd â'u mesuriadau yn mynd y tu hwnt i fesuriadau penodedig. Mae gan Weinidogion Cymru y pwer i wneud gorchymyn sy'n pennu mesuriadau gwahanol i'r rhai hynny a osodir yn Neddf 1968.

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru, yn rhoi, yn lle'r mesuriadau a geir yn adran 13(2) o Ddeddf 1968, fesuriadau sy'n fwy na'r rhai hynny.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Gyfarwyddiaeth Dai, Uned y Sector Preifat, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ (ffôn 01685 729181) neu Housing.Directorate@wales.gsi.gov.uk.

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

## 2007 No. 3163 (W.274)

# HOUSING, WALES

# The Caravan Sites Act 1968 (Amendment) (Wales) Order 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order amends the definition of caravan in section 13(2) of the Caravan Sites Act 1968 ("the 1968 Act").

Section 13 (twin-unit caravans) of the 1968 Act excepts from the definition of "caravan" in Part 1 of the Caravan Sites and Control of Development Act 1960 twin-unit structures designed or adapted for human habitation which are composed of not more than two sections separately constructed and designed to be assembled on site by bolts, clamps or other devices, which when assembled are physically capable of being moved by road from one place to another and whose dimensions exceed specified dimensions. The Welsh Ministers have the power to make an order specifying different dimensions to those set out in the 1968 Act.

This Order, which applies to Wales, substitutes dimensions that are larger than those set out in section 13(2) of the 1968 Act.

A regulatory impact assessment has been prepared in connection with this Order. A copy can be obtained from the Welsh Assembly Government, Housing Directorate, Private Sector Unit, Rhydycar, Merthyr Tydfil, CF48 1UZ (telephone 01685 729181) or Housing.Directorate@wales.gsi.gov.uk.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 3163 (Cy.274)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Safleoedd Carafanau 1968 (Diwygio) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Tachwedd 2007* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *7 Tachwedd 2007* |
| *Yn dod i rym* | *30 Tachwedd 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 13(3) o Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) ac wedi ymgynghori â phersonau neu â chyrff yr ymddengys i'r Gweinidogion eu bod yn rhai cysylltiedig yn unol ag adran 13(3) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safleoedd Carafanau 1968 (Diwygio) (Cymru) 2007 a daw i rym ar 30 Tachwedd 2007.

(2) Mae'r diwygiadau a wneir gan erthygl 2 yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1968 p.52.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a geir yn Neddf Safleoedd Carafanau 1968 o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672 erthygl 2, Atodlen 1). Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 3163 (W.274)

# HOUSING, WALES

## The Caravan Sites Act 1968 (Amendment) (Wales) Order 2007

| | |
|---|---|
| *Made* | *5 November 2007* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *7 November 2007* |
| *Coming into force* | *30 November 2007* |

The Welsh Ministers, in exercise of the power conferred on the Secretary of State by section 13(3) of the Caravan Sites Act 1968(**1**) and now vested in them(**2**) and having consulted such persons or bodies as appear to them to be concerned in accordance with section 13(3) of that Act, make the following Order:

**Title, commencement, and application**

**1**.-(1) The title of this Order is the Caravan Sites Act 1968 (Amendment) (Wales) Order 2007 and it comes into force on 30 November 2007.

(2) The amendments made by article 2 apply in relation to Wales.

(**1**) 1968 c.52.

(**2**) The functions of the Secretary of State contained in the Caravan Sites Act 1968 in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672 article 2, Schedule 1). The functions of the National Assembly for Wales were vested in the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

**Diwygio'r diffiniad o "*caravan*" at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960(1)**

**2**. Diwygir isadran (2) o adran 13 o Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968 ("*twin unit caravans*") fel a ganlyn-

(a) ym mharagraff (a) yn lle "60" a "18.288" rhodder "65.616" a "20" yn eu trefn;

(b) ym mharagraff (b) yn lle "20" a "6.096" rhodder "22.309" a "6.8" yn eu trefn; ac

(c) ym mharagraff (c) yn lle "10" a "3.048" rhodder "10.006" a "3.05" yn eu trefn.

**Amendment of the definition of caravan for the purposes of Part 1 of the Caravan Sites and Control of Development Act 1960(1)**

**2**. Subsection (2) of section 13 of the Caravan Sites Act 1968 (twin-unit caravans) is amended as follows-

(a) in paragraph (a) by the substitution for "60" and "18.288" of "65.616" and "20" respectively;

(b) in paragraph (b) by the substitution for "20" and "6.096" of "22.309" and "6.8" respectively; and

(c) in paragraph (c) by the substitution for "10" and "3.048" of "10.006" and "3.05" respectively.

*Jocelyn Davies*

O dan awdurdod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

5 Tachwedd 2007

Under authority of the Minister for Environment, Sustainability and Housing, one of the Welsh Ministers

5 November 2007

(**1**) 1960 p.62.

(**1**) 1960 c.62.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 3163 (Cy.274)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Safleoedd Carafanau 1968 (Diwygio) (Cymru) 2007

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 3163 (W.274)

# HOUSING, WALES

## The Caravan Sites Act 1968 (Amendment) (Wales) Order 2007

©℗ Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W178/11/07 ON